**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH**

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Gwener, 9 Chwefror 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | C.James, L.Williams, A.Dacey, R.Davies, N.Goldup-John, S.Thomas, R.W.Wood a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Plowman, M.Roberts, J.Stevens, T.Rees, S.Brennan, J Davies, O.Gavigan, K.Lewis, C.Saunders, B.Suddell a/ac L.Willis |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths a/ac S.Jones |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Nododd y Cadeirydd fod Eitem 15 ar agenda Bwrdd y Cabinet wedi'i gohirio i gyfarfod diweddarach er mwyn casglu rhagor o wybodaeth ac mae aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 7: Bargen Ddinesig Bae Abertawe – y diweddaraf am brosiectau a arweinir gan Gastell-nedd Port Talbot (Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel a Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer)
- Eitem 11: Rhaglen Caffael Cerbydlu Cerbydau a Pheiriannau Trymion 2024/25
- Eitem 12: Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus: Traeth a Phromenâd Aberafan.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12/01/24 fel cofnod cywir.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Eitem 7: Bargen Ddinesig Bae Abertawe – y diweddaraf am brosiectau a arweinir gan Gastell-nedd Port Talbot (Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel a Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer)

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad yn rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am y prosiectau fel y crybwyllwyd yn yr adroddiad.

Trafododd yr Aelodau Ganolfan Ragoriaeth Sero Net (Cyfleuster Hyfforddi) yn benodol mewn perthynas â'r newyddion am TATA Steel. Cyfeiriwyd at y gofyniad am hyfforddiant ychwanegol yn TATA a'r cyllid y mae TATA wedi dweud sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant. Holodd yr aelodau am y potensial i uwchsgilio pobl ac a oedd swyddogion yn edrych ar gael mynediad at y cyllid hwnnw?

Dywedodd swyddogion eu bod yn gweithio'n weithredol gyda bwrdd pontio TATA a'u bod wedi nodi'r Ganolfan Rhagoriaeth Sgiliau Sero Net Genedlaethol fel prosiect y byddent o bosib yn ceisio cyllid ar ei gyfer. Byddai'r cyllid hwn yn cefnogi cam 2 y cyfleuster.

Esboniodd yr Aelodau a fyddai newyddion TATA yn effeithio'n negyddol ar unrhyw un o'r prosiectau.

Nododd swyddogion fod y newyddion gan TATA yn siomedig gan eu bod yn gyflogwr mawr yn yr ardal yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae swyddogion yn ceisio asesu'r gadwyn gyflenwi a phwy sy'n cael eu heffeithio'n anuniongyrchol ac yn uniongyrchol o fewn TATA. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y bwrdd pontio'n gweithio'n galed i ddeall effaith cynigion TATA.

Esboniodd swyddogion fod y prosiectau hyn yn dod yn bwysicach oherwydd newyddion TATA a thynnwyd sylw at y Prosiect Switch fel enghraifft sy'n edrych ar ddeunyddiau ac Ymchwil a Datblygu (YD) yn y diwydiant dur. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, os aiff TATA i lawr eu llwybr arfaethedig o ffwrnais arc drydan, yna bydd llawer o YD wrth weithio allan a yw'r deunyddiau y maent yn eu cyflwyno yn gywir ar gyfer y farchnad, a fyddai'n golygu y byddai'r cyfleuster Switch yn rhan bwysig o hynny. Dywedodd swyddogion fod disgwyl i'r Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch fynd i Barc Ynni Baglan a bydd hynny'n caniatáu i gwmnïau lleol amrywio eu prosiectau a chymryd rhan mewn marchnadoedd newydd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chadwyn gyflenwi TATA, ac efallai y byddant yn gallu newid cynhyrchu a chael cefnogaeth ynghyd â hynny a helpu i roi hwb i Barc Ynni Baglan. Dywedodd swyddogion fod darn sylweddol o dir yno ac maent yn gobeithio

y gall y Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch fod yn rhan o hynny ac mae'r ganolfan dechnoleg yn cynnig lle i adeiladau newydd ac yn gadael i fusnesau deillio ddatblygu a cheir cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi gyda Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.

Dywedodd swyddogion, o ran amrywio'r economi ac ehangu'r economi, ochr yn ochr â'r gwaith newydd o'r porthladd rhydd Celtaidd, fod y rhain yn brosiectau pwysig iawn a fydd yn helpu i fod yn sail i'r gwaith newydd.

Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw gyllid i edrych yn benodol ar dai teras o ran YD i ddod o hyd i atebion ar gyfer cysylltiadau gwefru cerbydau trydan fel y gall yr awdurdod helpu i ddatgarboneiddio, yn enwedig gan ystyried yr heriau y bydd gan dai teras ac eiddo hŷn o ran atebion gwefru.

Esboniodd swyddogion fod Nigel Morris, sy'n arwain y prosiect hwn, wedi trefnu digwyddiad yn ôl ym mis Tachwedd yn Academi Hyfforddi TATA Steel lle gwahoddodd yr awdurdod sawl cwmni a gynhyrchodd yr opsiynau amrywiol ar gyfer gwefru ar y stryd. Roedd hyn yn cynnwys opsiynau fel rhedeg o dan balmentydd, neu freichiau sy'n ymestyn ar draws palmant yn ogystal â phwyntiau gwefru sefydlog ar y ffordd. Bu sawl cwmni yn siarad â swyddogion am yr amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael a dywedodd Llywodraeth Cymru, a oedd hefyd yn bresennol, fod cyllid ar gael i sefydlu cwpl o dreialon o fewn yr Awdurdod lleol. Dywedodd swyddogion y gallent sefydlu cwpl o'r technolegau gwahanol hyn i gynnal treialon i weld pa rai sy'n perfformio orau. Mae swyddogion wrthi'n mynd ar drywydd llwybrau ariannu gwahanol i gefnogi'r gweithgaredd hwn cyn gynted â phosibl.

Nododd yr Aelodau fod y Fargen Ddinesig wedi'i chyhoeddi 7 mlynedd yn ôl a gofynnwyd beth oedd yr amserlen o ran y gwariant gan nad yw llawer o brosiectau wedi dechrau ac mae costau llawer ohonynt wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd yr Aelodau am wybod a ddylid rhoi hwb i'r rhain nawr?

Eglurodd swyddogion, er bod cyllidebau a manylion prosiectau wedi'u penderfynu yn 2017, llofnodwyd cytundeb cyllido rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot yn 2022, felly er ei fod yn edrych fel cyfnod hir, cymerwyd llawer o gamau i gyrraedd lansiad swyddogol y gweithgareddau hyn. Cytunodd swyddogion ei bod yn anodd gyda phrosiectau mawr lle mae cyllidebau wedi'u penderfynu blynyddoedd cyn iddynt ddechrau oherwydd nad oedd yn bosib rhagweld digwyddiadau Brexit, chwyddiant, cynnydd mewn costau deunyddiau a rhyfeloedd sydd wedi effeithio ar gyflenwadau deunyddiau.

Dywedodd swyddogion hefyd fod yna cyfnodau arwain hir gyda phrosiectau fel y rhain wrth weithio gyda phartneriaid ac wrth gael cytundebau ar gyfer prosiectau, dyluniadau terfynol a manylebau. Esboniodd swyddogion fod y ganolfan dechnoleg yn cael ei chyflwyno'n eithaf cyflym oherwydd eu bod yn gweithredu'n gyflym gan fod ganddynt arian arall yr oedd yn rhaid iddynt ei ddefnyddio o fewn amser penodol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau ei fod yn ymwneud â sicrhau mai nhw yw'r prosiectau cywir a'u bod yn cael eu datblygu yn y ffordd iawn.

Gofynnodd yr aelodau gwestiwn am Gartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (HAPS) ynghylch pa elfennau o Brosiect Clwb Gweithwyr Castell-nedd sy'n cael eu hariannu o'r £300,000. Dywedodd yr aelodau nad oedden nhw'n ymwybodol o unrhyw gymwysterau gwyrdd

neu amgylcheddol i'r prosiect a gofynnwyd a yw hyn yn elfen ychwanegol o'r prosiect sy'n cael ei ariannu?

Dywedodd swyddogion na fyddai'r holl geisiadau a gyflwynwyd wedi bod yn dai HAPS heb y cyllid hwn. Felly, bydd y cyllid sydd wedi'i ddyrannu yn galluogi'r tai i fod yn lanach, yn wyrddach ac yn fwy cost-effeithiol. Nid oedd gan swyddogion fanylion y cynllun hwnnw ond byddent yn dod yn ôl at yr aelodau gyda'r dechnoleg benodol a fydd yn cael ei rhoi yn y datblygiad.

Gofynnodd y cadeirydd a fyddai modd dosbarthu'r sleidiau o'r cyflwyniad yn dilyn y cyfarfod a theimlodd y byddai'n ddefnyddiol iawn ar gyfer y tri phrosiect sydd wedi'u hariannu os byddai aelodau'n cael ychydig mwy o wybodaeth fanwl.

Nodwyd yr adroddiad.

<u>Eitem 11: Rhaglen Caffael Cerbydlu Cerbydau a Pheiriannau Trymion 2024/25</u>

Nododd yr Aelodau fod llawer o gerbydau'n cael eu disodli ar sail debyg am debyg, ac roedd y pwyllgor wedi siarad yn flaenorol am drosglwyddo i gerbydau di-allyriadau. Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion a oedd y cerbydau tebyg am debyg newydd oherwydd nad oes cerbydau di-allyriadau o'r math hwnnw ar gael neu maent ar gael ond yn afresymol o ddrud. Ac am ba hyd y mae'r swyddogion yn rhagweld i'r cerbydau newydd hyn bara fel y gall aelodau gael syniad o'r oedi i drosglwyddo i gerbydau di-allyriadau a ddaw yn sgil hyn.

Dywedodd swyddogion fod ganddynt gylch bywyd o 7 mlynedd ar gyfer newid cerbydau sbwriel ac ailgylchu diesel a 5 mlynedd ar gyfer ysgubwyr pellter canolig byr. Dywedodd swyddogion y byddai'n cymryd 9 mlynedd ar gyfer faniau bach/canolig, lorïau, ceir 4x4 a cheir.

Yn y dyfodol dywedodd swyddogion y byddant yn edrych ar y cylchoedd bywyd eto, fel bod cerbydau'n cael eu prynu dros oes gwarant batri ar gerbydau. Bydd hyn yn amrywio yn ôl math y cerbyd.

Eglurodd swyddogion fod rhai cerbydau allyriadau isel ar gael i'w prynu, ac nad yw rhai eraill ar gael. Bydd adolygiad y cerbydlu'n cynnwys asesiad o'r cylchoedd bywyd presennol ac yn y dyfodol yn unol â'r rhaglen bontio. Bydd y faniau bach a chanolig yn cael eu trosglwyddo i gerbydau di-allyriadau erbyn 2025. O ran cerbydau mwy, yn enwedig y cerbydau ailgylchu, mae swyddogion yn edrych ar brynu cerbydau allyriadau isel yn eu lle, ond mae'n rhaid ystyried y gost, yn ogystal â sicrhau ffrydiau cyllid grant i hwyluso'r broses pontio.

Cydnabu'r Aelodau ei fod yn debyg na fydd cerbydau di-allyriadau yn cymryd lle'r lorïau sbwriel am 7 mlynedd arall oherwydd diffyg argaeledd y math hwnnw o gerbyd.

Dywedodd swyddogion eu bod wedi treialu cerbydau cludo gwastraff ac nad ydynt wedi dod o hyd i un a all ymdopi ag amgylchiadau daearyddol yr awdurdod o ran gallu ymdopi â mynd i fyny ac i lawr bryniau yn rheolaidd a'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r cerbydau hyn. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod rhai tryciau gwastraff hydrogen yn dod i'r amlwg, ond mae'r dechnoleg hon ar gamau cynnar iawn ac roedd yn hanfodol bod cyflenwad sylweddol o hydrogen gwyrdd ar gael i'w cynnal.

Tynnodd swyddogion sylw at yr anhawster y maent yn ei gael gyda faniau trwm i ganolig, sef bod problemau gyda phrif lwyth mewn perthynas â chario llawer o offer ac nid yw'r pwysau cynyddol yn addas eto ar gyfer gallu'r batri. Mae'r un peth yn wir am gerbydau 4x4.

Gofynnodd yr aelodau beth sy'n digwydd i beiriannau torri gwair y gallwch eistedd arnynt neu gerbydau llai pan fydd yr awdurdod yn eu disodli. Dywedodd swyddogion eu bod, yn unol â phrosesau archwilio, yn cael dau neu dri phrisiad o dai arwerthiant ac yna'n dewis y prisiad gorau a'u hanfon yno i'w gwerthu. Yna daw'r arian yn ôl i'r awdurdod i wrthbwyso'r cynnydd mewn costau cerbydau newydd.

Holodd yr aelodau beth oedd y gymhareb o gerbydau sy'n eiddo i'r cyngor yn erbyn cerbydau ar brydles yn y cerbydlu. Cadarnhaodd swyddogion mai dim ond 3% o'r cerbydlu sydd ar gontract llogi a gwneir hynny fel contractau tymor byr yn unig.

Croesawodd yr Aelodau yr wybodaeth a ddarparwyd am ddiffyg argaeledd yr offer a nodwyd bod yr awdurdod wedi cael problemau ynghylch newid i gerbydau allyriadau isel, er eu bod wedi gwneud eu gorau.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd am golofn mewn adroddiadau yn y dyfodol ar gyfer cerbydau newydd tebyg am debyg, gan nodi pam ei bod yn debyg am debyg gan y byddai hyn yn ateb llawer o gwestiynau ymlaen llaw. Nododd y swyddogion yr awgrym.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Eitem 12: Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus: Traeth a Phromenâd Aberafan</u>

Nododd yr Aelodau yr eithriadau ar gyfer anabledd a namau yn yr adroddiad a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i hysbysebu'r eithriadau cyfreithlon hyn. Dywedodd swyddogion eu bod wedi hysbysebu yn y pwyntiau mynediad i'r traeth ar gyfer cŵn tywys. Eglurwyd bod swyddogion wedi cael ymholiadau gan ysgolion ac unigolion eraill mewn perthynas â chŵn cymorth, o ran plant awtistig etc. sydd â chŵn cymorth. Mae swyddogion wedi siarad â'r perchnogion hynny ynghylch pryd maen nhw'n debygol o fod ar y traeth a rhoddwyd gwybod i swyddogion gorfodi.

Esboniodd swyddogion eu bod wedi edrych ar hysbysebu'n ehangach a chael hysbysebion am yr eithriadau ar lan môr ond mae hynny'n cyflwyno anawsterau o ran gorfodaeth gan nad oes gan swyddogion gorfodi unrhyw ffordd o wrthbrofi os oes gan rywun gi cymorth ai peidio.

Dywedodd swyddogion eu bod yn ymwybodol y bydden nhw'n cael eu beirniadu'n hallt pe bai gan rywun gi cymorth ac nad oeddent yn gallu mynd â nhw ar y traeth. Bydd swyddogion yn ceisio cysylltu â 13 o sefydliadau cŵn cymorth cymeradwy yn y DU i weld a oes ganddynt gynllun pasbort gyda cherdyn fel y gall pobl ddangos i swyddogion fod y ci yn gi cymorth.

Teimlai'r aelodau y byddai cysylltu â'r sefydliadau hynny'n fan cychwyn da. Roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'r ymgynghoriad hir a gynhaliwyd a'r ystyriaethau a gymerwyd

i'r terfynau amser ac archwilio sut y gallent fod wedi'u rhoi ar waith hyd yn oed pe na baent yn cael eu cynnwys fel argymhelliad yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelodau bod angen mwy o swyddogion gorfodi i frwydro yn erbyn perchnogion cŵn diegwyddor a gofynnwyd a oes modd cael rhagor o swyddogion yno. Dywedodd swyddogion fod ganddynt dîm bach a'i fod yn un o'u blaenoriaethau a byddant yn gwneud gweithgareddau gorfodi penodol am ran helaeth o'r wythnos ym misoedd yr haf, fodd bynnag, dyma un rhan o'r fwrdeistref gyfan y mae'r tîm yn ei gwasanaethu.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

5. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

6. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd aelodau'r pwyllgor y Flaenraglen Waith.

7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Roedd yr eitem breifat wedi cael ei gohirio.

8. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Roedd yr eitem breifat wedi'i gohirio.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**